


# Job description

**Teitl:** Ymchwilydd Arweiniol

**Yn adrodd i'r:** Arweinydd Tîm Ymchwiliadau – Busnes Craidd

**Lleoliad:** Ymchwiliadau Craidd - Caerdydd, Birmingham, Canary Wharf, Croydon, Sale, Wakefield

Ymchwiliadau Mawr (MI) Gogledd - Sale neu Wakefield

Ymchwiliadau Mawr (MI) De - Birmingham neu Canary Wharf

**Gradd:** 11

**Cyflog:** £37,596 (ynghyd â £4,968 o lwfans pwysoli Llundain os byddwch yn gweithio yn Canary Wharf neu Croydon)

**Contract:** Parhaol

## Diben

Mae IOPC yn sefydliad sy'n frith o hanes, wedi'i ddylanwadu gan ffigurau arwyddocaol fel Stephen Lawrence a Syr William Macpherson, sy'n goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yn gosod y safonau y dylai'r heddlu eu dilyn wrth ymdrin â chwynion. Fel sefydliad cwbl annibynnol, rydym yn ceisio cynnal hawliau'r cyhoedd ac ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, gan gynnwys marwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu, er mwyn hyrwyddo dysgu a dylanwadu ar newid ym maes plismona.

Fel Ymchwilydd Arweiniol, byddwch yn rhan o dîm ymchwiliadau dynamig sy'n gweithio'n lleol ac yn genedlaethol ar ystod eang o ymchwiliadau sy'n aml yn llygad y cyhoedd, yn y gyfarwyddiaeth Ymchwilio, Goruchwylio a Gwaith Achos. Mae IOPC ar daith i ddatblygu ei diwylliant, ei safbwyntiau a'i hethos i gefnogi canlyniadau craidd y sefydliad a dyma eich cyfle i ymuno â byd llawn

amrywiaeth ymchwiliadau IOPC, a fydd yn eich galluogi i ddatblygu eich meddylfryd a'ch dulliau o gyfrannu at wella system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r tîm ymchwiliadau yn gyfrifol am gynnal ein gwerthoedd wrth sefydlu'r ffeithiau y tu ôl i gŵyn a dod i gasgliadau er mwyn creu argymhellion.

Fel Ymchwilydd Arweiniol, byddwch yn arwain pob agwedd ar ymchwiliad, o nodi'r cylch gorchwyl cychwynnol, i gasglu tystiolaeth, cyfweld â thystion, dod i gasgliadau, ac ysgrifennu adroddiad terfynol, ac mae llawer o’r adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi. Mae adroddiadau hefyd yn cynnwys argymhellion i'r heddlu neu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch camau i'w cymryd i wella arferion ac atal camgymeriadau yn y dyfodol. Felly, mae'n hanfodol bod ag agwedd 'atebolrwydd gwybodaeth ddiwylliannol' at eich gwaith, fel eich bod yn cynhyrchu canlyniadau cyflawn a chadarn.  Ar ôl yr ymchwiliad, mae staff ymchwiliadau yn gyfrifol am gefnogi achosion troseddol, achosion disgyblu ac achosion crwner a allai ddilyn.

Mae natur y gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i staff ymchwiliadau gymryd rhan mewn gwaith ar alwad y tu allan i oriau arferol, a byddwn yn talu lwfans priodol yn unol â pholisi IOPC.

Bydd angen profiad perthnasol arnoch o gynnal ymchwiliadau mewn unrhyw sector, megis gwaith cymdeithasol, y gwasanaethau prawf, gorfodi awdurdodau lleol neu wasanaethau rheoleiddio, yn ogystal â thwyll neu gyfiawnder troseddol. Rydym yn chwilio am rywun â sgiliau dadansoddol ac ysgrifennu adroddiadau datblygedig iawn, a gallu ac ymrwymiad i weithredu'n annibynnol. Mae IOPC yn wasanaeth cyhoeddus sy'n ceisio sicrhau bod pawb yn derbyn gwasanaeth cyfartal. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen pobl arloesol sydd ag ymwybyddiaeth gymdeithasol i ymuno â ni. Mae IOPC wedi ymrwymo i ddatblygu meddylfryd tîm o unigolion amrywiol ac angerddol er mwyn iddynt wireddu eu nodau gyrfa wrth gyfrannu at wella hyder pobl mewn plismona.

Mae'r rôl hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974; felly bydd gwiriad safonol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gynnal ar yr ymgeisydd llwyddiannus yn ystod y broses cyn cyflogi.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Arwain ymchwiliadau annibynnol i honiadau troseddol a chamymddwyn yn unol â chanllawiau IOPC y cytunwyd arnynt.
- Cynnal ymchwiliadau o fewn amserlenni, cyllideb a safonau ansawdd y cytunwyd arnynt.
- Drafftio a chytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliadau penodol.
- Cyflawni camau ymchwilio, gan gynnwys cyfweld, a chymryd datganiadau, paratoi ffeiliau achos, a gwneud argymhellion ar gyfer camau troseddol a / neu ddisgyblu.
- Cymryd rhan mewn achosion troseddol, achosion camymddwyn ac achosion chwest lle bo angen.
- Adrodd i'ch Arweinydd Tîm Gweithrediadau ar gynnydd ymchwiliad, meysydd risg a gofynion adnoddau.
- Cymryd rhan yn y shifft ar alwad 24 awr a bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol ac estynedig.
- Ymweld â lleoliadau digwyddiadau a goruchwylio rheoli lleoliadau lle bo angen i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i gadw ac adfer tystiolaeth.
- Mynychu archwiliadau post mortem a briffio'r patholegydd yn ôl yr angen.
- Ysgrifennu adroddiadau ymchwiliad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad i'w cyflwyno i'r sawl sy’n gwneud y penderfyniad ar ran IOPC.
- Cyfathrebu mewn ffordd effeithiol ag achwynwyr, teuluoedd mewn profedigaeth, a rhanddeiliaid mewnol ac allanol eraill.
- Gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol gyda rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cyfreithwyr, swyddogion y wasg ac eraill.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygiad personol mewn maes ymchwilio dynamig ac sy'n esblygu'n gyson.
- Cynorthwyo'r Gyfarwyddiaeth i gyflawni ei chyflawniadau allweddol. Paratoi amserlenni datgelu ar gyfer achosion llys ac achosion cwest.
- Adolygu deunydd annymunol, cysylltu â theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth drawmatig, craffu allanol cadarn ar weithredoedd a phenderfyniadau.
- Derbyn cymorth/hyfforddiant agos gan reolwyr a mynediad at raglen gymorth helaeth i weithwyr.

- Nodi dysgu posibl ar gyfer heddluoedd i ystyried gwella'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu ac atal niwed i'r cyhoedd.

# Manyleb y person

## Technegol Dymunol

- Cymhwyster PiP2 neu brofiad ymchwilio cyfatebol

## Profiad Hanfodol

- Cynnal cyfweliadau ymchwiliol, casglu tystiolaeth, dadansoddi a chyflwyno.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Sgiliau rhagorol o ran dadansoddi ac ysgrifennu adroddiadau; gallu dod i benderfyniadau clir, rhesymegol, seiliedig ar dystiolaeth ac annibynnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o wybodaeth sy'n bodoli'n barod a gwybodaeth sy'n datblygu - a chofnodi hynny.
- Profiad o ymgysylltu'n effeithiol ag ystod amrywiol o bobl a rhanddeiliaid, a thystiolaeth o ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle.
- Darparu gwaith o safon uchel o fewn amserlenni heriol.
- Adnabod risg weithredol a sefydliadol.
- Gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd sy'n newid.
- Trwydded yrru lawn sy'n ddilys ar gyfer gyrru yn y DU

## Sgiliau a galluoedd hanfodol

- Y gallu i ddangos mentergarwch ac addasu mewn amgylchedd sy'n newid.
- Ysgrifennu adroddiadau ymchwiliad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad i'w cyflwyno i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad ar ran IOPC.
- Cyfathrebu'n effeithiol ag achwynwyr, teuluoedd mewn profedigaeth, a rhanddeiliaid mewnol ac allanol eraill.
- Y gallu i gydnabod eich anghenion datblygu a bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â nhw.
- Y gallu i flaenoriaethu a rheoli tasgau'n effeithiol er mwyn cyflawni canlyniadau o safon o fewn amserlenni heriol.
- Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm gyda syniadau a phobl amrywiol.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ac addasu dulliau cyfathrebu fel y bo'n briodol.

## Hyfforddiant

Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar **11 Mai 2026** a dilyn cyfnod cynefino a hyfforddiant. Fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, byddwch yn dilyn Rhaglen Ymchwiliadau Proffesiynol Lefel 1 (PIP1) sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth fel ymchwilydd wrth weithio i gyflawni cymhwyster. Mae rhaglen PIP1 yn cynnwys dysgu ffurfiol a dysgu yn y gwaith yn ogystal â chymorth i adeiladu portffolio o dystiolaeth a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi ddod yn ymchwilydd PIP1. Hefyd, byddwch yn cwblhau achrediad Uned 4 Pearson sy'n ymwneud ag ymchwiliadau IOPC blaenllaw. Wrth i ni weithio i lansio PIP2, byddwch yn cael cyfle i wneud rhaglen PIP2 yn ddiweddarach.

Mae hyfforddiant yn orfodol a bydd yn cael ei gyflwyno gyda chyfuniad o sesiynau o bell ac yn y cnawd. Bydd rhagor o fanylion am yr hyfforddiant ar gael i ymgeiswyr yn ddiweddarach.

Ar ôl cwblhau rhaglen PIP1, bydd disgwyl i chi gymryd rhan yn y rhaglen ailddilysu. Mae ailddilysu yn sicrhau bod eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn cael eu gwella a'u cynnal yn unol â gofynion PIP. Rhaid i chi gyfrannu'n llawn at y broses ailddilysu.

## Addasiadau rhesymol

Mae IOPC yn weithle amrywiol a chynhwysol ac rydym am eich helpu i ddangos eich potensial llawn ym mha bynnag fath o asesiad a ddefnyddir. Rydym yn agored i ddarparu'r offer sydd ei angen arnoch i lwyddo – gallai hyn gynnwys amser ychwanegol neu newidiadau o ran fformat, i enwi dim ond ambell enghraifft. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar gyfer ein proses recriwtio, e-bostiwch recruitment@policeconduct.gov.uk.

## Gweithio Hybrid

Ar hyn o bryd, mae IOPC yn ymgynghori â'n cyrff ymgynghorol ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'n polisi gweithio hybrid a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff weithio 20% o'u horiau contractiol yn eu swyddfa (neu swyddfa arall am resymau busnes) o 1 Medi 2024 gan gynyddu i 40% o fis Ebrill 2025 ymlaen. Mae presenoldeb yn y swyddfa yn cynnwys hyfforddiant yn y cnawd, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a theuluoedd, a mynychu digwyddiadau.

## Rhestr wirio

- ☐ Adolygu'r disgrifiad swydd llawn
- ☐ Adolygu'r ymddygiadau a'r disgrifyddion ar gyfer pob ymddygiad
- ☐ Adolygu'r geiriadur cryfderau
- ☐ Adolygu gwerthoedd IOPC
- ☐ Ystyried eich Cryfderau (os yw'n berthnasol)
- ☐ Ystyried drafftio atebion enghreifftiol sy'n cwmpasu'r elfennau penodol
- ☐ Paratoi ambell i gwestiwn i ofyn i'r rhai sydd ar y panel cyfweld